

Rydym yn falch o groesawu ein siaradwr heddiw sef **Sarah Robinson**. Sarah yw Sylfaenydd a Chadeirydd **Hope GB**, sef elusen a sefydlwyd yn dilyn diagnosis ei mab o awtistiaeth yn 4 oed. Wedi'i lleoli yng Nghwbrân mae'r elusen yn gwasanaethu awdurdodau lleol Torfaen a'r cyffiniau a'i nod yw "cyfoethogi bywydau y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt" trwy gyfeirio, darparu cymorth ymarferol, hyfforddiant a hwyl.

Ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Y mis diwethaf cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac roeddem yn falch o groesawu ein **Swyddog Datblygu Rhanbarthol dros Gymru, Angela Johnson**. Llwyddodd Angela i'n diweddarau ar yr hyn sy'n digwydd yn genedlaethol. Dywedodd fod gan yr NHSRF bellach 7,500 o aelodau ond yn amlwg, dim ond cyfran fach o'r 1.6 miliwn o ymddeoliadau GIG yn y DU yw hyn. Yn aml mae hyn oherwydd nad yw pobl yn gwybod am y Gymrodoriaeth. Yn dilyn ymgyrch P60 y llynedd, maent yn parhau i weithio gyda Phensiynau GIG er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn eu cylchlythyr blynyddol. Mae'r Prif Weithredwr newydd, Mike Seaton wedi llwyddo i gael cyllid gan GIG Lloegr ynghyd â chyllid pellach gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG i gefnogi'r NHSRF. Pwysleisiodd Angela pa mor bwysig yw hi ein bod yn dweud wrth bobl am y Gymrodoriaeth er mwyn i eraill gael y cyfle i ymuno.

Dywedodd Angela wrthym am yr ailstrwythuro staff sy'n digwydd yn y Brif Swyddfa a'r ffaith bod y llynedd wedi bod yn flwyddyn o newid. Ar hyn o bryd mae chwe changen yng Nghymru, tair yn y Gogledd a thair yn y De, gyda chyfanswm o 350 o aelodau

Cododd aelodau ein Cangen y ffaith eu bod yn methu cael Cynhadledd Cymru ac mai ychydig, os o gwbl, o gyfathrebu sy'n digwydd â Changhennau eraill. Dywedodd Angela fod angen cynrychiolydd o blith yr aelodau ar gyfer Cymru os hoffai unrhyw un wneud hyn. Dywedwyd nad oedd Pwyllgor Cyswllt Cymru Gyfan bellach ac felly mae'r cyfle i roi adborth i'r Brif Swyddfa ac ymgysylltu â Changhennau eraill Cymru wedi'i gollu.

Darparodd **Denise Coldrick, Trysorydd** adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan **Lilwyn Griffiths, Trysorydd Cynorthwyol**. Roedd hyn yn dangos bod gennym ni ar ddechrau'r flwyddyn £4,878.25 yn cynnwys ffioedd aelodaeth ar gyfer 2023. Ar ôl tynnu'r rhain, roedd y balans yn £2,569.43 ar 29 Chwefror 2024. Roedd ein gwaith codi arian wedi mynd yn dda ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed o £500 ar gyfer ein dewis elusen.

Gofynnodd Denise i ni atgoffa aelodau y gallant gofrestru ar gyfer **Cymorth Rhodd** os ydynt yn drethdalwr gan y gall hyn wneud gwahaniaeth i gronfeydd y Gangen.

Anfonodd **Ann Hyde, yr Ysgrifennydd Aelodaeth** adroddiad bod gennym fel Cangen ar ddiwedd 22/23 79 o aelodau. Penderfynodd deg aelod a oedd yn cynnwys wyth a ymunodd eleni ynghyd â rhai ymwelwyr beidio ag ailymuno nac ymuno. Bu hefyd farw un aelod, gan adael cyfanswm o 11. Nid oedd y rhan fwyaf o'r aelodau newydd na adnewyddodd eu haelodaeth wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd y flwyddyn honno. Gadawodd hyn 68 o aelodau a adnewyddodd eu haelodaeth ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, ers mis Mawrth roedd gennym 11 aelod newydd arall wedi ymuno.

Aelodaeth y Pwyllgor - Pleidleisiodd yr aelodau o blaid cadw'r aelodau presennol ar y Pwyllgor. Roeddem hefyd yn falch iawn o gyhoeddi bod gennym ddau aelod newydd o'r Pwyllgor. Y rhain yw **Jill Coggins** a **Kay Davies**. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda nhw.

Ein Elusen Ddewisol 2024

Tynnwyd enwebiadau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer ein elusen ddewisol. Yr elusen lwyddiannus yw **Sight Cymru** (Sight Support gynt) y mae ei phrif swyddfa ym Mhont-y-pŵl. Sight Cymru yw'r asiantaeth ar golli golwg fwyaf sy'n darparu gwasanaethau ledled Cymru. Nod **Tîm Cefnogi Pobl Sight Cymru** yw helpu pobl sydd wedi colli eu golwg i oresgyn anawsterau sydd ganddynt fel y gallant fyw bywydau annibynnol. Mae hwn yn wasanaeth yn y cartref ac mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol.

Raffl Arbennig Codi Arian

Daeth Angela Johnson ar ei hymweliad â'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol â **Samsung Galaxy Tablet A7** o'r Brif Swyddfa i ni. Gall y Gangen ddefnyddio'r tabled fel gwobr i helpu i godi arian ar gyfer ein helusen. Cynhelir raffl, ar wahân i'r £3 ar gyfer te/coffi/raffl sy'n daladwy wrth y drws. Bydd y raffl yn cael ei chynnal yn ein cyfarfod nesaf ym **mis Mai**. Mae tocynnau ar gael gan **Jen Martin** am £5 y strbed. Os gwelwch yn dda cefnogwch a gadewch i ni weld os gallwn roi hwb i'n cronfeydd elusen.

Gŵyl cymrodoriaeth

Efallai y bydd gan rai ohonoch ddiddordeb yng ngwyliau blynyddol y Gymrodoriaeth, a gynhelir eleni rhwng Medi 11 - 18 yn **Llyn Garda, yr Eidal**. Y gost fydd £1,300 o Gatwick (gellir gadael o feysydd awyr eraill ond gall y gost amrywio ychydig) Mae pob gwibdaith yn gynwysedig yn y pris hwn. Dylai unrhyw un sydd eisiau cadw lle neu sydd eisiau rhagor o fanylion gysylltu â Lorraine Taylor ar lorrainetaylor321@btinternet.com

TEITHIAU A GWIBDEITHIAU

WRTH ARCHEBU LLE AR GYFER UNRHYW DDIGWYDDIAD YCHWANEGWCH YR HOLL ENWAU A LLEOLIAD CODI AR GYFER PAWB SY'N BWRIADU YMUNO Â'R DIGWYDDIAD.

AMGUEDDFA AWYROFOD BRYSTE - DYDD MERCHER 17^{EBRILL} 2024

TALIAD TERFYNOL (BALANS A THALIAD LLAWN) HEDDIW OS GWELWCH YN DDA.
BYDDWN YN DEFNYDDIO BYSYS ANSLOW ETO AR YR ACHLYSUR HWN.

AMSEROEDD CODI'R BWS

GORSAF FYSUS CWMBRAN 09-15AM

RIVERSIDE CASNEWYDD 09-30AM

FFORDD DDEUOL CAS-GWENT TUA 09-40AM

BYDDWN YN GADAEI BRYSTE AM 16-00PM

GÊM DARTS - DYDD MERCHER 22^{MAI}

BOWLIAU DAN DO A CHANOLFAN CHWARAEON CASNEWYDD
COST BWFFE A BAR £10 - I'W DALU YNG NGHYFARFOD MIS EBRILL
CROESO I BARTNERIAID YN ENWEDIG OS BYDDANT YN CHWARAE - ENWAU HEDDIW OS
GWELWCH YN DDA.

TAITH DDIRGEL FLYNYDDOL

BYDD Y DAITH YN CAEL EI CHYNNAL DDYDD IAU 20FED MEHEFIN COST £20

{B>TALIAD TERNYNOL YNG NGHYFARFOD MIS MAI<B}

MANYLION I DDILYN.

BYDD ANGEN BLAENDAL O £10- 00 NA ELLIR EI DALU YN ÔL WRTH YCHWANEGU EICH
ENW/ENWAU

GERDDI ABERGLASNEY

MAE GŴYL FWYD A CHERDDORIAETH YM MIS MEDI.

DIM MANYLION AR GAEL ETO

TAITH NADOLIG - ABERTAWE

A DDEWISWYD GAN AELODAU

MAE'R DAITH WEDI'I THREFNU AR GYFER DYDD IAU 5ED RHAGFYR

RHOWCH Y DYDDIAD YN EICH DYDDIADURON - MANYLION I DDILYN

TEITHIAU THEATR

YN Y DYFODOL BYDD ANGEN BLAENOROL NAD OES MODD EI DALU'N ÔL O £5 WRTH ARCHEBU
TOCYNNAU THEATR

NEWYDDION MAWR

MAE TINA TURNER THE MUSICAL YN DOD I GANOLFAN Y MILENIWM CAERDYDD YM MIS

CHWEFROR 2025

BYDD 20 TOCYN YN CAEL EU CADW

TAITH O GANOLFAN MILENIWM CYMRU YM GORFFENNAF

ENWAU UNRHYW UN Â DIDDORDEB HEDDIW OS GWELWCH YN DDA
DYDDIAD GWENER 5^{ED} GORFFENNAF AM 1PM.

COST £12 OND BYDD GOSTYNGIAD AR GAEL YN DIBYNNOL AR RIFAU. YN PARHAU AM AWR.

**AWGRYMIADAU OS GWELWCH YN DDA AR GYFER LLEOLIADAU Y GALLWN DREFNU CINIO NEU
TE PRYNHAWN AR GYFER Y GRŴP YNDDYNT. GALLWN DREFNU BOB YN AIL FIS NEU PAN NAD
OES GENNYM WEITHGAREDD WEDI'I THREFNU**

**CROESO I OEDOLION TEULU A FFRINDIAU AR Y RHAN FWYAF O DEITHIAU AC EITHRIO PAN FYDD
RHIFAU'N GYFYNGEDIG. BYDD AELODAU'N CAEL BLAENORIIAETH O RAN ARCHEBU**

**ER MWYN SICRHAU BOD MODD PARHAU I DREFNU TEITHIAU, CEFNOGWCH EICH GRŴP TEITHIO
OS GWELWCH YN DDA**

Adnewyddu aelodaeth

Nodyn i'ch atgoffa bod ffurflenni adnewyddu aelodaeth ar gael yn y cyfarfod heddiw ac y
gellir eu dychwelyd at **Ann Hyde**

Cyfarfodydd nesaf

Dydd Llun, 20 Mai 2024 - Diane Bilgin a fydd yn siarad â ni am y Llongau Trugaredd

Dydd Llun, 17 Mehefin 2024 - Pam Cocchiara gyda mwy o benillion comig i'n diddanu

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor

Atgoffir aelodau'r Pwyllgor mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fydd **2pm ddydd Iau 23
Mai 2024 yn Ystafell y Bwrdd yn Llanfrechfa Grange**. Mae croeso i unrhyw aelod sydd â
diddordeb yn yr hyn a wnawn fynychu.

Eich Pwyllgor

Cadeirydd	Lynda Evans	Trefnwyr Raffl	Jen Martin
Is-Gadeirydd	<i>Swydd wag:</i>	Cyfarchwyr	Cynthia Matthews
Ysgrifennydd	<i>Swydd wag:</i>		Carol Cunnell
Trysorydd	Denise Coldrick		Barbara Davies
Trysorydd Cynorthwyol	Lilwyn Griffiths		Jill Coggins
Llefarydd Ysgrifennydd	Joanne Butler		Kay Davies
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ann Hyde		
Llyfrau/Gwerthiannau/ Pleidlais o ddiolch Cydlynnydd	Pam E Jones		
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt		
Swyddogion Lles	Caroline Pitt a Megan Williams		

Gwybodaeth Cyswllt

Cadeirydd	Lynda Evans	01633 420668	lyndaevs@hotmail.co.uk
Ysgrifennydd			
Swyddogion Lles	Caroline Pitt Megan Williams	01633 660608 01633 420932	
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt	01633 843140	delyn46@yahoo.co.uk

CYMDEITHAS YMDDEOL Y GIG - CANGEN GWENT

FFURFLEN ADBORTH

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael adborth gan aelodau ynghylch eu profiad o'n Cangen leol. Mae eich barn yn werthfawr er mwyn i ni allu gwneud gwelliannau yn ogystal â chynllunio ymlaen llaw ar gyfer teithiau, gweithgareddau a siaradwyr sydd o ddiddordeb i chi. A fydddech cystal â threulio ychydig funudau yn cwblhau'r holiadur hwn ac yna ei roi yn y blwch awgrymiadau sydd ar gael heddiw ac yn y cyfarfod nesaf.

Ydych chi'n mwynhau cyfarfodydd y Gangen? Os felly, beth sy'n dda amdanyn nhw?

Pa agweddau nad ydynt cystal?

Pa newidiadau/gwelliannau allwn ni eu gwneud?

A ydych chi'n teimlo fod croeso i chi yn y cyfarfodydd?

Ydych chi'n mwynhau'r rhaglen teithiau a gweithgareddau a drefnir gan y Gangen?

A oes unrhyw deithiau a gweithgareddau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys?

Unrhyw sylwadau eraill